# Fframwaith Adfywio Ardal Ni

CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL PEN LLŶN



Mai 2025


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer ardal Pen Llŷn.




Ardaloedd Adfywio Lleol:
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD

Mae Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cydberchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU ARDAL NI



Bwriad prosiect Ardal Ni oedd cynnal sgwrs a thrafod hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio'r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i'r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner 'Ardal Ni 2035'

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd a mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 17 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.
- Oherwydd pryder dwys am ddirywiad y Gymraeg mae Cynghorau Cymuned Llŷn i gyd wedi dynodi'r ardal yn Ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Canlyniad hyn ydi, fod "Cynlluniau i gynnal a chryfhau'r Gymraeg", wedi cael ei ychwanegu at restr o flaenoriaethau Cynllun Adfywio Lleol, Ardal Pen Llŷn 2035.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 359 o ymatebion o ardal Pen Llŷn drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd : https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o'r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â'r Gwerthoedd a'r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae'r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28 tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon


## Awdurdod Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2015 - 2026
- Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031)

Llŷn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# ARDAL PEN LLŶN HEDDIW

05





Mae Ardal Pen Llŷn wedi ei leoli yn rhan Gorllewinol y Sir, nodweddion arfordirol a gwledig Pen Llŷn yn ganolog iddo. Mae'r Ardal yn cynnwys cymunedau Nefyn, Llanengan, Botwnnog, Aberdaron, Llanbedrog a Thudweiliog.

## Crynodeb Ardal Pen Llŷn mewn Ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well na chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **85.3 –** disgwyliad oes merched, yn uwch na ffigwr Cymreig o 82.3
- **81.7 –** disgwyliad oes dynion, yn uwch na ffigwr Cymreig o 78.3
- **1.29 –** (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn is na ffigwr Gwynedd o 2.52 a Chymru 2.55
- **78%** - canran o'r boblogaeth oedran 26-64 sy'n weithgar economaidd sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 75%
- **68%** - sy'n medru siarad Cymraeg sydd yn uwch na'r ffigwr Gwynedd (65%) a Chymru (19%)
- **10%** o bobl mewn amddifadedd incwm sydd yn is na chyfartaledd

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **13.5%** - plant 4-5 oed sydd yn ordew sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 11.8%
- **82.9%** - canran oedolion gyda chymhwyster sydd yn is na chyfartaledd Gwynedd (83%) ond uwch na Chymru (80%)
- **4%** swyddi gwerth uchel yn is na Gwynedd (11%) a Chymru (13%)
- **30%** o dai yn gartrefi gwyliau, sydd yn uwch chyfartaledd Cymru (3%) a chyfartaledd Gwynedd (11%)
- **21.1%** - canran o'r boblogaeth sy'n byw gyda salwch tymor hir neu anabledd sydd yn uwch na 20.5% ar gyfer Gwynedd

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (285)
- Mae'n ardal ddiogel (215)
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (183)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (152)
- Treftadaeth a hanes yr ardal (147)
- Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon (126)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol, gweithgareddau cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol (111)
- Mae'r ardal yn lân a thaclus (96)
- Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal (84)
- Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai (82)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni Pen Llŷn. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*


### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?

- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu (176)
- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (165)
- Mae nifer uchel o ail dai a tai haf yn yr ardal (154)
- Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol (115)
- Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc (108)
- Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal (105)
- Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal (104)
- Mae pryder am ffyrdd a parcio mewn nifer o leoliadau (92)
- Mae band eang a chysylltiad we yn wael (85)

# ARDAL PEN LLŶN YMHEN 15 MLYNEDD



Mae'r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus 'Ardal Ni'. Mae'r materion wedi eu gosod yn y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda'r prif faterion wedi eu hamlygu gan iddynt gael eu hadnabod o leiaf 1 allan o 5 ymateb



## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

### Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Pen Llŷn dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 157 |
| 2 | Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal | 145 |
| 3 | Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | 142 |
| 4 | Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | 118 |
| 5 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 113 |
| 6 | Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | 112 |
| 7 | Adolygu Polisïau Cynllunio | 97 |
| 8 | Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal | 84 |
| 9 | Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | 81 |
| 10 | Mwy o gynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogaeth i bobl ifanc | 80 |
| 11 | Cynlluniau i daclo tlodi | 78 |
| 12 | Uwchraddio adeiladaeth band eang | 76 |
| 13 | Cynlluniau i gynnal a chryfhau'r Gymraeg **Gweler tudalen 3** | |

# CYNLLUN GWEITHREDU



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B1. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol** | 1.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Trydydd Sector | Gweithredol | Bl 1-5 |
| | 1.2 | Adnewyddu Tŷ Plas | Capel Carmel | Sefydliadau lleol, Cyllidwyr | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B2. Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal** | 2.1 | Cefnogi a hyrwyddo cynnyrch lleol | Canolfan Fenter Congl Meinciau | Cynhyrchwyr Hwb Menter Cywain | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 2.2 | Cynnyrch lleol a chynaliadwy | Amgueddfa Forwrol Llŷn / Is-grwpiau gwirfoddolwyr | Cymdeithas gwenynwyr | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 2.3 | Pecyn eiddo gwag canol tref | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1 -2 |
| | 2.4 | Gwynedd Lewyrchus – Cronfa Datblygu Busnesau | Cyngor Gwynedd | Amrywiol | Rhagbaratoi | Bl 1 -2 |
| | 2.5 | Micro-fusnes a Gorchymyn Pysgota | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Prifysgol Bangor, Adran Forwrol | Rhagbaratoi | Bl 1 -2 |
| | 2.6 | Cynlluniau sirol megis Ailwefru, Dyfodol Digidol, Prynu'n lleol, Ffiws, Arfor | Darparwyr amrywiol | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 2.7 | Datblygu Adeilad cyn Ysgol Abersoch | Cyngor Cymuned Llanengan Menter Rabar | Perthyn Cwmpas Cyngor Gwynedd | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B3. Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel** | 3.1 | Canolfan sgiliau gwaith | Canolfan Fenter Congl Meiciau | Darparwyr hyfforddiant, sector fusnes | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 3.2 | Adfer Melin Daron | Melin Daron Cyf | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B4. Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol** | 4.1 | Gwynedd Glyd – Premiwm Treth Cyngor | Cyngor Gwynedd | | Cynllun sirol sydd yn weithredol | Bl 1-2 |
| | 4.2 | Gwynedd Glyd – Peilot Dwyfor | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Ymchwil manwl yn cael ei baratoi | Bl 1-2 |
| **B5. Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati** | 5.1 | Tirweddau cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.2 | Cymunedau Glan a Thaclus | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.3 | GwyrddNi | DEG | Sefydliadau lleol | Gweithredol www.gwyrddni.cymru | Bl 1-2 |
| | 5.4 | Ynni Adnewyddol Ynys Enlli | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Menter Môn | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 5.5 | Ail doi a chynllun solar | Neuadd Abersoch | Grwpiau defnyddwyr | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.6 | Ôl-osod i bawb | Ynni Llŷn | Contractwyr lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.7 | Hyfforddiant | Ynni Llŷn | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1- 2 |
| | 5.8 | Gwelliannau i wella cynhesrwydd a chynaliadwyedd | Amgueddfa Forwrol Llŷn | Cyfeillion yr Amgueddfa | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.9 | Prosiectau Tir a Môr - Cynnal ac ehangu cynefinoedd amrywiol | Cyngor Gwynedd | Ystod o sefydliadau | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.10 | Gardd Feddyginiaethol - hanes Meddyges Bryn Canaid | Plas Carmel | Felin Uchaf | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.11 | Prosiect hyrwyddo a sgiliau traddodiadol | Cymdeithas Hen Beiriannau Llŷn | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5.12 | Crwydro - hybu llwybrau Llŷn | Canolfan Treftadaeth a Natur Llŷn, Llangwnnadl | Cyngor Cymuned Tudweiliog, Cyngor Tref Nefyn | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.13 | Dolydd Llŷn - creu gweirgloddau | Dolydd Llŷn | AHNE Llŷn Cartrefi preswyl, Ysgolion | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.14 | Banc storio hadau i Lŷn | Had.Cymru | Gwyrdd Ni, Felin Uchaf, Cwmpas | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 5.15 | Grantiau Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, CNC, PCE | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 5.16 | Cerbyd trydan | O Ddrws i Ddrws | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B6. Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol** | 6.1 | Digwyddiadau a gweithgareddau lleol | Tafarn yr Heliwr | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 6.2 | Cyfleoedd gwella llesiant | Eco amgueddfa | Atyniadau treftadaeth yn yr ardal | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 6.3 | Creu man chwarae naturiol i blant | Oriel Plas Glyn y Weddw | Cyfeillion Plas Glyn y Weddw | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 6.4 | Stwna - dilyniant i brosiect Lôn i Les | O Ddrws i Ddrws | Sefydliadau ac atyniadau lleol | Gweithredol | Bl1-2 |
| | 6.5 | Hwb Cefnogi Pobl | Cyngor Gwynedd | Canolfan Fenter Congl Meinciau | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B7. Adolygu Polisïau Cynllunio** | 7.1 | Cynllun Datblygu Lleol | Cyngor Gwynedd | | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| **B8. Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal** | 8.1 | Gwasanaeth Trafnidiaeth Fflecsi Llŷn | O Ddrws i Ddrws | Amrywiol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 8.2 | Gwynedd Werdd : Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cynllun Sirol) | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Darparwyr | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 8.3 | Llwybr Penrallt Nefyn – Morfa Nefyn | Cyngor Tref Nefyn | Cyngor Gwynedd, Busnesau lleol, Defnyddwyr | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B9. Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol** | 9.1 | Cynllun Economi Ymweld Gynaliadwy Lleol | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 9.2 | Hyrwyddo adnoddau digidol | Prifysgol Bangor / Eco amgueddfa | Prosiect Tirlun Llŷn, Cyngor Gwynedd Atyniadau treftadaeth | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.3 | Prosiect Storws | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Uned AHNE Sefydliadau treftadaeth lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 9.4 | Gofod gweithdai allanol | Oriel Plas Glyn y Weddw | Cyfeillion Plas Glyn y Weddw | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.5 | Adfywio Tai Ynys Enlli | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Eco-amgueddfa, Plas Carmel, Felin Uchaf, Cyngor Cymuned Aberdaron | Gweithredol | Bl 3-5 |
| | 9.6 | Ail strwythuro Plas Bach | Oriel Plas Glyn y Weddw | Cyfeillion Plas Glyn y Weddw | Rhagbaratoi | Bl 3 - 5 |
| | 9.7 | Uwchraddio capel hanesyddol | Capel Carmel | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.8 | Cilfachau - i ddehongli treftadaeth leol | Capel Carmel | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.9 | Gwelliannau Capel Newydd Nanhoron | Ymddiriedolaeth Capel Newydd Nanhoron | AHNE Llŷn AHF Cymru | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.10 | Adnewyddu Eglwys Aberdaron | Cyngor Cymuned Aberdaron | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.11 | Adfer Capel ar Ynys Enlli | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 9.12 | Enwau'r Arfordir - prosiect digidol | Plas Carmel | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 9.13 | Datblygiad y Prosiect Artistiaid Preswyl | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 9.14 | Datblygu Gwefan twristiaeth ddiwylliannol | Cymdeithas Penygraig | GwyrddNI Cymunedoli | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B10. Mwy o gynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogaeth i bobl ifanc** | 10.1 | Etifeddiaeth Enlli | Ymddiriedolaeth Ynys Enlli | Ysgolion lleol, Coleg Meirion Dwyfor, Sefydliadau treftadaeth, Cynhyrchwyr lleol | Gweithredol | Bl 1-3 |
| | 10.2 | Gwelliannau i'r ganolfan | Canolfan Adloniant Aberdaron | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl1-2 |
| | 10.3 | Gwella hygyrchedd ac uwchraddio'r cae | Clwb Pêl droed Nefyn | Clybiau Defnyddwyr | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 10.4 | Gwella cyfleusterau | Neuadd Llanbedrog | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 10.5 | Gwelliannau i'r Neuadd | Neuadd Mynytho | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 10.6 | Gwella cyfleusterau'r Clwb i gynyddu cyfranogiad y gymuned | Clwb Golff Abersoch | Sefydliadau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B11. Cynlluniau i daclo tlodi** | 11.1 | Rhaglen Cefnogi Pobl gyda Costau Byw | Cyngor Gwynedd | Amrywiol | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 11.2 | Llyfrgell Petha' Llŷn | O Ddrws i Ddrws | Benthyg Cymru, Llyfrgelloedd Gwynedd, Cyngor Tref Nefyn | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 11.3 | Cefnogaeth i waith | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth DU | Gweithredol | Bl 1-5 |
| **B12. Uwchraddio adeiladaeth band eang** | 12.1 | Cynllun 'Yr Ychydig % Olaf' | Uchelgais Gogledd Cymru | Cyngor Gwynedd, Llywodraethau Cymru & DU | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 12.2 | Cynllun Grant Allwedd Bandeang Cymru | Llywodraeth Cymru | | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| **B13. Cynlluniau i gynnal a chryfhau'r Gymraeg** | 13.1 | Cynllun Croeso Cymraeg | Cyfeillion Llŷn | Cymdeithas Pen y Graig, Cynghorau Cymuned | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 13.2 | Canolfan Groeso Cymraeg | Cymdeithas Pen y Graig | Menter Llŷn, Cynghorau Cymuned / tref | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO



Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy’n cyfrannu at adfywio a gwella Ardal Pen Llŷn. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i’w gilydd.

Fel rhan o’r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu’r rhaglen waith yn cael eu sefydlu ym Mhen Llŷn, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a’r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol Pen Llŷn yn cynnwys :

- Partneriaeth Llŷn
- Partneriaeth Ecoamgueddfa
- Canolfan Fenter Congl Meinciau
- Canolfan Deunant Aberdaron
- Cylch Meithrin Aberdaron
- Cyfeillion Eglwys Newydd Aberdaron
- Cae Chwarae Aberdaron
- Twristiaeth Aberdaron
- Clwb Hwylio Aberdaron
- Plas Carmel
- Sefydliad y Merched Aberdaron
- Melin Daron
- Ymddiriedolaeth Ynys Enlli
- Neuadd Rhiw
- Neuadd Rhoshirwaun
- Menter Felin Uchaf
- Neuadd Abersoch
- Cylch Meithrin Abersoch
- Cylch Meithrin Sarnbach
- Abersoch & District Trade and Tourism Association
- Cae chwarae Abersoch
- Merched y Wawr
- Sefydliad y Merched Abersoch
- Bore Paned 50 Abersoch a'r Cylch
- Capel Newydd Nanhoron
- Neuadd Sarn
- Clwb Snwcer Sarn
- Ynni Llŷn
- Cyfeillion Eglwys Llandegwning
- Canolfan Bryncroes
- Sefydliad y Merched Sarn
- Cylch Meithrin Bryncroes
- Cae Chwarae Bryncroes
- Merched y Wawr Bryncroes
- Clwb Ffermwyr Ifanc y Rhiw
- Pwyllgor Llanw Llŷn
- Neuadd Llanbedrog
- Cylch Meithrin Llanbedrog
- Oriel Plas Glyn y Weddw
- Canolfan Gymdeithasol Llanengan
- Grŵp Treftadaeth Plwyf Llanengan
- Neuadd Mynytho
- Merched y Wawr Mynytho
- Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn
- Y Ganolfan Nefyn
- Cyngor Tref Nefyn
- Cyngor Cymuned Tudweiliog
- Cyngor Cymdeithas Botwnnog
- Cyngor Cymuned Aberdaron
- Cyngor Cymuned Llanengan
- Cyngor Cymuned Llanbedrog
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Menter Llŷn, Nefyn
- Tafarn yr Heliwr, Nefyn
- O Ddrws i ddrws
- Drws Agored
- Cylch Meithrin Nefyn
- Merched y Wawr Nefyn
- Clwb Peldroed Nefyn
- Capel Ceidio
- Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen
- Canolfan Morfa Nefyn
- Cae Chwarae Morfa Nefyn
- Cylch Meithrin Morfa Nefyn
- Merched y Wawr Morfa Nefyn
- Canolfan Edern
- Cae Chwarae Edern
- Cylch Meithrin Edern
- Canolfan Tudweiliog
- Canolfan Dreftadaeth a Natur Llŷn, Llangwnadl
- Yr Hen Ysgol Llangwnadl
- Y Dinasyddion, Dinas
- Canolfan Llaniestyn
- Merched y Wawr Llaniestyn
- Rhodwyr Llŷn
- Heneiddio'n Dda Nefyn
- Sustainable Abersoch Cynaliadwy